Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Atodiad A: Datganiad Ysgrifenedig – Diweddariad ar wariant Cenedl Noddfa 2025-2026**

*Gwariant net Llywodraeth Cymru*

Ers i Gynllun Cenedl Noddfa gael ei gyhoeddi gyntaf yn 2019, dyma'r **gost net** i Lywodraeth Cymru ar y polisi:

| **Tabl 1 Gwariant net Llywodraeth Cymru ar bolisi Cenedl Noddfa dros 6 blynedd (Blynyddoedd Ariannol 2019-2025)** | | |
|---|---|---|
| **Blwyddyn ariannol** | **Cyfanswm y gwariant net fesul blwyddyn ariannol (£000oedd)** | **Y cyfanswm net cronnol flwyddyn ar ôl blwyddyn (£000oedd)** |
| 2019-2020 | 510 | 510 |
| 2020-2021 | 91 | 601 |
| 2021-2022 | 655 | 1,256 |
| 2022-2023 | 26,334 | 27,590 |
| 2023-2024 | 31,648 | 59,238 |
| 2024-2025 | 4,635 | 63,873 |

O gyfanswm y gost net dros chwe blynedd, rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2025, sef £63.87m o gyllideb Cenedl Noddfa:

- Cyfanswm y gwariant ar yr ymateb i argyfwng Wcráin oedd £58.22m - mae hyn yn cynrychioli 91% o gyfanswm cyllideb Cenedl Noddfa.

- Cyfanswm y gwariant ar wasanaethau cymorth ac integreiddio i geiswyr lloches a ffoaduriaid a leolwyd yng Nghymru a gwasanaethau cymorth i fudwyr yng Nghymru (nad oeddent yn gysylltiedig ag Wcráin) oedd £5.65m – mae hyn yn cynrychioli 9% o gyfanswm cyllideb Cenedl Noddfa.

Mae'r cyfanswm o £63.87m yn parhau i gynrychioli 0.05% o gyllideb Llywodraeth Cymru dros y chwe blynedd, rhwng 2019 a 2025, ers cyhoeddi Cynllun Cenedl Noddfa.

*Dadansoddiad o wariant net Llywodraeth Cymru*

Mae'r tabl isod yn nodi gwariant net Llywodraeth Cymru ar bob un o feysydd polisi Cenedl Noddfa, rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2025. Ffigurau bras yw'r rhain.

| Tabl 2 Dadansoddiad o wariant Llywodraeth Cymru ar bolisi Cenedl Noddfa dros 6 blynedd (Blynyddoedd Ariannol 2019-2025) | |
|---|---|
| **Maes gweithgarwch** | **Gwariant o 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2025 (£000oedd)** |
| Ymateb i argyfwng Wcráin, gan gynnwys<br>• Llety a chymorth cofleidiol<br>• Cymorth i awdurdodau lleol<br>• Cymorth i letywyr o fewn cymunedau | 58,215 |
| Gwasanaethau cymorth ac integreiddio – ceiswyr lloches a ffoaduriaid, gan gynnwys<br>• Gwasanaeth Noddfa Cymru<br>• Cymorth iaith - Saesneg<br>• Llwybrau i addysg bellach a gwaith<br>• Cymorth i symud ymlaen i lety arall<br>• Cymorth aduniadau teuluol | 4,048 |
| Gwasanaethau cymorth – Mudo a gynlluniwyd a dinasyddion yr UE, gan gynnwys<br>• Fframwaith Integreiddio Mudwyr Cymru<br>• Cymorth cyngor cyfreithiol ynghylch mewnfudo<br>• Cyngor ynghylch y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE | 610 |
| Rhodd untro i Gronfa Groeso Sefydliad Cymunedol Cymru (Mawrth 2022) i gefnogi Wcreiniaid, ceiswyr lloches a ffoaduriaid yng Nghymru. | 1,000 |
| **Cyfanswm (dros 6 blynedd)** | **63,873** |

*Incwm o Lywodraeth y DU*

Ers 2022, mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn **ychydig o dan £100m** gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â'r ymateb i argyfwng Wcráin. Mae'r incwm hwn yn cynnwys cyllid tariff i Wcreiniaid yn y DU o dan Gynllun Cartrefi i Wcráin, a drosglwyddwyd i awdurdodau lleol, ynghyd â chyfran gymesur o Grant Atal Digartrefedd Llywodraeth y DU (2023-2025) a ddarparwyd i sicrhau bod modd cefnogi gwesteion o Wcráin i symud i'w cartrefi eu hunain ac i leihau'r perygl o ddigartrefedd. Trosglwyddwyd hwn hefyd i awdurdodau lleol yn llawn.

Roedd Llywodraeth Cymru yn cofnodi incwm Llywodraeth y DU o fewn cyllideb Cenedl Noddfa gan fod ymateb Llywodraeth Cymru i argyfwng Wcráin yn adlewyrchu polisi Cenedl Noddfa. Ddiwedd Mawrth 2025, fel y nodwyd uchod, ychwanegodd Llywodraeth Cymru £8m at gyllid Grant Atal Digartrefedd y DU.

Mae'r tabl isod yn nodi cyfanswm incwm Llywodraeth y DU rhwng 2022 a Mawrth 2025.

| **Tabl 3. Incwm Llywodraeth y DU ar yr ymateb i argyfwng Wcráin (2022-2025)** | | |
|---|---|---|
| **Blwyddyn ariannol** | **Cyfanswm yr incwm fesul blwyddyn ariannol (£000oedd)** | **Y cyfanswm cronnol flwyddyn ar ôl blwyddyn (£000oedd)** |
| 2022-2023 | 74,400 | 74,400 |
| 2023-2024 | 18,631 | 93,031 |
| 2024-2025 | 6,427 | 99,458 |